Tystiolaeth gan Cyngor Gwynedd

Ymchwiliad i'r cynigion deddfwriaethol drafft ynghylch Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020

# YMATEB PARTNERIAETH ECONOMAIDD GWYNEDD A CYNGOR GWYNEDD

## 01. Cyflwyniad

01.1. Gwerthfawrogir yn fawr y cyfle i gynnig sylwadau ar gynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Cronfeydd Strwythurol yr UE i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy law'r Pwyllgor Menter a Busnes.

01.2. Lluniwyd a chyflwynir y sylwadau hyn ar y cyd gan Bartneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) a Chyngor Gwynedd. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn adlewyrchu ac yn ategu nifer o sylwadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

01.3. Mae PEG yn bartneriaeth agored a chynhwysol sy'n hwyluso cydweithio er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i bobol, cymunedau a busnesau Gwynedd. Yn ogystal â hybu datblygiad economaidd y sir, mae PEG yn gyfrifol am Echel 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd ac mae'n cynnal gorolwg ehangach o'r Cronfeydd Ewropeaidd sy'n weithredol yn y sir gan gynnwys y Rhaglen Cydgyfeirio (ceir amlinelliad o weithgaredd y Bartneriaeth yn ei adroddiad blynyddol ac ar ei safle gwe www.economigwynedd.info).

01.4. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lleol sir Gwynedd sy'n gyfrifol, ymysg pethau eraill, am ddatblygu ffyniant economaidd y sir (gweler http://www.gwynedd.gov.uk/ am wybodaeth bellach am waith y Cyngor). Yn ogystal â'i weithgaredd craidd o fewn y meysydd sgiliau, cefnogi busnes, twristiaeth ac adfywio cymunedol a strategol; mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfrifol am reoli nifer o gynlluniau sylweddol sy'n derbyn arian Ewrop drwy law'r Rhaglen Cydgyfeirio presennol yn ogystal â gweithredu Echelau 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd.

01.5. Mae Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd Polisi Cydlyniant cryf ac effeithiol ar gyfer Ewrop gyfan, ac yn gweld buddiannau amlwg yn y cymorth a gynigir drwy law'r Cronfeydd Strwythurol. Fel ardal, mae Gwynedd wedi denu buddsoddiad o dros £73m yng nghyfnod rhaglennu Amcan 1 rhwng 2000 a 2006, a hyd yma wedi denu dros £65 miliwn yn y cyfnod rhaglennu presennol. Rydym yn dymuno cydnabod y cymorth yr ydym wedi ei dderbyn hyd yma, ac yn credu ym mhwysigrwydd strategol y Cronfeydd Strwythurol i hyrwyddo twf medrus, cynwysedig a chynaliadwy yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ymylol Ewrop.

01.6. Tra 'rydym yn cydnabod gwerth y buddsoddiad yng nghefnogi ffyniant â thwf yn yr ardal; wrth edrych ymlaen, mae nifer o sialensiau yn ein hwynebu. Bydd angen ymateb i ail-strwythuro nifer o ddiwydiannau lleol a chwtogi'r sector gyhoeddus o ganlyniad i'r dirwasgiad economaidd byd-eang, ynghyd ag effeithiau

cymdeithasol ac economaidd newidiadau demograffig. Edrychwn i gefnogi ein pobl, ein cymunedau a'n busnesau i lwyddo drwy eu harfogi gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r ysbryd mentrus er mwyn datblygu sail busnes arloesol, a'u cefnogi ymhellach gydag isadeiledd modern a safonol. Byddai hyn yn ei dro yn gwneud Gwynedd yn le deniadol i fyw, gweithio ac ymweld trwy ddatblygu potensial economaidd ein nodweddion unigryw, gan gynnwys ein diwylliant, iaith, treftadaeth a'n amgylchedd naturiol.

01.7. Mae'r anghenion uchod yn cyfiawnhau'r angen i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol drwy law'r Cronfeydd Strwythurol.

## 02. Yr hyn y gallai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ei olygu i Gymru

Cyffredinol

02.1. Ar y cyfan, mae Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) yn croesawu'r Rheoliadau ar gyfer 2014-2020 a pharhad cefnogaeth i ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn cefnogi datblygiad a ffyniant yr ardal.

02.2. Mae Gwynedd yn gweld buddsoddiad pellach rhwng 2014 – 2020 yn gyfle gwirioneddol i adeiladu ar y buddsoddiadau a'r ymdrechion sydd wedi bod yn ystod y 11 mlynedd diwethaf er mwyn sicrhau bod seiliau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal yn cael eu gweddnewid a'u cryfhau.

02.3. Credir bod yr ymdrech i symleiddio gweithrediad polisi a chreu fframweithiau cyffredin i'w croesawu, yn ogystal â symleiddio trefniadau monitro ac adrodd. Mae Cyngor Gwynedd a PEG yn gobeithio y bydd y bwriad yma o symleiddio yn treiddio i'r cyrff fydd yn gyfrifol am weithredu'r cronfeydd.

Y Cytundeb Partneriaeth

02.4. Mae Gwynedd yn credu bod rôl allweddol i **bob** elfen o lywodraeth wrth ddatblygu'r Fframwaith Strategol Cyffredin a'r Cytundeb Partneriaeth. Mae Cyngor Gwynedd a PEG yn annog y Comisiwn a'r Llywodraeth i sicrhau bod holl haenau llywodraethu yn derbyn rôl wirioneddol a synhwyrol yn natblygiad y cytundebau partneriaeth a'r fframwaith strategol cyffredin trwy'r 'cod arfer da'.

Gweithredu Lleol

02.5. Croesewir yr awgrym o ddatblygiad lleol yn cael ei arwain gan y gymuned fel a welir yn Erthyglau 28 – 31. Gallai hyn arwain at lunio strategaeth datblygu lleol ar lefel Gwynedd / Gogledd Orllewin Cymru.

02.6. Byddai gan Gyngor Gwynedd a PEG ddiddordeb mewn trafod ymhellach yr egwyddorion y tu ôl i ddatblygu strategaeth a phartneriaeth leol, y diffiniad o ardal leol a sut y gellid adeiladu ar yr erthyglau hyn er budd datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal arbennig hon o Ewrop.

02.7. Croesewir yn ogystal y posibilrwydd o ddatblygu Cynlluniau Gweithredu ar y cyd a Buddsoddiadau Daearyddol Integredig - gallai hyn gynnig cyfleoedd unigryw i Wynedd fod yn gyfrifol am weithredu elfennau o'r cronfeydd.

Ardaloedd Trefol a Gwledig

02.8. Datgenir pryder eithriadol gan Gyngor Gwynedd a PEG y gall o leiaf 5% o adnoddau cenedlaethol gael eu rhoi i weithgareddau integredig ar gyfer datblygiad trefol cynaliadwy trwy ddethol rhestr o 20 dinas ar lefel aelod wladwriaeth. Gallai hyn olygu bod adnoddau ar gyfer ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael eu colli i ardaloedd eraill.

Offerynnau cyllido a Chyfleuster Cysylltu Ewrop

02.9. Mae Cyngor Gwynedd a PEG yn croesawu'r defnydd o offerynnau cyllido, ond wedi dweud hynny yn gofyn am wybodaeth bellach o ran eu gweithrediad a sut y bydd y Comisiwn yn darparu'r fframweithiau hyn.

02.10. Croesewir y bwriad o ddatblygu Cyfleuster Cysylltu Ewrop (Connecting Europe Facility) ar gyfer prosiectau traws-Ewropeaidd mewn trafnidiaeth, ynni a TGCh. Gallai hyn gynnig cyfleoedd arbennig i gysylltu ardaloedd gwledig ac ymylol Ewrop.

## 03. Yr hyn y dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru wrth gynnal trafodaethau a fydd yn sicrhau y canlyniadau gorau i Gymru

Y Cytundeb Partneriaeth

03.1. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cytundeb Partneriaeth a'r Fframwaith Strategol Cyffredin yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd ac nid rhwng Llywodraeth Prydain a'r Comisiwn Ewropeaidd.

03.2. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fydd yr unig ardal Llai Datblygedig o 2014-2020 ac felly dylid sicrhau llais teg i'r ardal mewn trafodaethau uniongyrchol efo'r Comisiwn Ewropeaidd.

Darpariaethau Cyffredin i'r Cronfeydd a Chyfeiriad Strategol

03.3. Mae Gwynedd yn croesawu'r ymagwedd strategol a'r blaenoriaethau sydd wedi eu datblygu, ond wedi dweud hynny yn credu y dylai bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau hyblygrwydd o fewn y diffiniadau fydd yn cael eu llunio ar gyfer canolbwyntio 50% o'r adnoddau yn yr Ardaloedd Llai Datblygedig ar gryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesi, gwella cystadleurwydd busnesau bach a chanolig a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel ymhob sector.

03.4. Dylid cyflwyno peth hyblygrwydd o fewn y diffiniadau ac yn gyffredinol er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol ac anghenion ardaloedd gwledig a threfol.

03.5. Rydym yn credu hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y blaenoriaethau ymchwil, datblygiad technegol ac arloesi yn berthnasol i weithgareddau y tu hwnt i Brifysgolion, neu fod sicrwydd bod y budd i Brifysgolion yn cael ei ledaenu yn lleol.

Amodau a Gwobrwyo perfformiad

03.6. Mae Cyngor Gwynedd a PEG yn croesawu'r defnydd o amodau a gwobrwyo perfformiad, ond eto yn credu y dylai hyn gael ei weithredu ar sail cytundeb partneriaeth rhwng Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Gwynedd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru leisio pryder y gallai perfformiad ardaloedd eraill o Brydain amharu ar berfformiad Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac arwain at gosbi Cymru.

03.7. Mae Cyngor Gwynedd a PEG hefyd yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru lobio i'r Comisiwn Ewropeaidd glustnodi unrhyw gronfa berfformiad wrth gefn mewn amser digonol er mwyn sicrhau buddsoddi'r adnoddau ychwanegol mewn digon o amser ac ar brosiectau cryf.

Gweithredu Lleol

03.8. Mae Gwynedd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau lleol / isranbarthol efo cyswllt clir gyda gweithgareddau rhanbarthol / cenedlaethol.

03.9. Pe byddai datblygiadau rhanbarthol / cenedlaethol yn cael eu datblygu a'u gweithredu mae hi'n angenrheidiol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhain yn hybu integreiddiad ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a ddim integreiddiad ardaloedd y tu hwnt i ffiniau Rhanbarthau Llai Datblygedig.

03.10. Mae Gwynedd yn credu nad oes angen ailddatblygu strwythurau partneriaeth ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru integreiddio a symleiddio strwythurau trwy roi cyfrifoldeb am yr elfennau hyn i bartneriaethau adfywio lleol megis Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Ardaloedd Trefol a Gwledig

03.11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y diffiniad o 'ddinesig' yn cael ei benderfynu ar lefel Cymru ac nid ar lefel y DG. Mae anghenion trefol Cymru yn dra gwahanol i'r cyfartaledd Ewropeaidd ac mae Cyngor Gwynedd a PEG yn credu y dylid canolbwyntio ar gysylltiadau rhwng y trefol a'r gwledig ac nid ar y trefol ar draul y gwledig.

03.12. Pe byddai 20 ardal drefol / dinesig yng Nghymru yn cael y cyfle i ddatblygu yn y modd y nodir yn y Rheoliadau, gallai hyn ddeillio buddiannau sylweddol ar draws rhwydweithiau trefol / dinesig Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

03.13. Mae Gwynedd hefyd yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i bwysleisio'r angen am gyswllt clir rhwng unrhyw fuddsoddiad yn yr ardaloedd dinesig cyfagos gyda dwyn budd i ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn sicrhau fod buddsoddiad cronfeydd Ewropeaidd yn hyrwyddo ffyniant yr ardal yn ei chyfanrwydd.

03.14. Cred Gwynedd mai diben EAFRD yw sicrhau bod adnoddau penodol i ddatblygu cynaladwyedd a chystadleurwydd ardaloedd gwledig. Mae'r gronfa yma yn bodoli er mwyn ymateb i anghenion ychwanegol ardaloedd gwledig y tu hwnt i'r ddarpariaeth a geir trwy law'r Cronfeydd Strwythurol ac felly mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau parhad buddsoddiad o'r Cronfeydd Strwythurol yn yr economi wledig.

<u>Offerynnau cyllido a Chyfleuster Cysylltu Ewrop</u>

03.15. Credir y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i wella rhwydweithiau ffyrdd traws-Ewropeaidd, yn enwedig rhwydwaith E22 (sy'n cynnwys yr A55). Dylid hefyd cefnogi buddsoddiadau mewn datblygu cysylltiadau band eang, yn enwedig i ardal Gwynedd ac erfynnir y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyswllt rheilffordd ar draws arfordir y Gogledd yn gymwys i dderbyn cyllid fel prif rwydwaith yn yr ardal ar gyfer ei drydaneiddio.

03.16. Mae Gwynedd yn credu'n gryf mewn lledaenu budd o'r rhwydweithiau trafnidiaeth Ewropeaidd i'r cymunedau cyfagos. Byddai gwella'r cysylltiadau rhwng yr A55 a'r M4 yn enghraifft berffaith o greu cyswllt strategol rhwng y rhwydweithiau Ewropeaidd a datblygu isadeiledd yn gyffredinol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac yn enwedig o fewn ein hardaloedd gwledig ac ymylol. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod a chefnogi hyn.

## 04. <u>Sut y gall Cymru sicrhau bod ei barn yn llywio'r broses drafod</u>

04.1. Mae Gwynedd yn credu bod angen i Gymru sicrhau llais clir ac amlwg yn y broses drafod. Trwy gydweithio a datblygu safbwyntiau pendant ar y cyd, rydym yn credu bod modd darparu llais cryf wrth negodi.

04.2. Mae angen cydweithio'n agos yng Nghymru rhwng y prif chwaraewyr er mwyn adnabod a chytuno ar brif negeseuon lobio a thrafod. Unwaith y bydd yr amcanion a'r negeseuon wedi eu cytuno, dylid eu trafod gyda'r canlynol er mwyn llywio'r broses:

- Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Chyngor Ewrop
- Aelodau Cynulliad a Seneddol
- Y Comisiwn Ewropeaidd

- CEMR (Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop)
- Senedd Ewrop
- Pwyllgor y Rhanbarthau
- Rhwydweithiau / asiantaethau perthnasol eraill